| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Mehefin 2017<br>AGC – Arolygiad o Wasanaethau Plant | | A1 Dylid llunio arlwy o wybodaeth sy’n hawdd ei darllen a sicrhau ei bod yn hygyrch i deuluoedd, plant a phobl ifanc, gan gyfeirio nid yn unig at wasanaethau ataliol, ond hefyd at sut mae gwasanaethau plant a chymorth cynnar yn cyflawni eu gwaith.<br>A2 Dylid sefydlu hyfforddiant amlasiantaeth effeithiol a threfniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall trothwyon a disgwyliadau atgyfeirio gwasanaethau cymorth cynnar a gwasanaethau plant a’u bod yn cael eu cymhwyso’n gyson.<br>A3 Dylai’r cyngor barhau i ddatblygu systemau gwybodaeth sy’n cynnwys craffu ar y galw am wasanaeth, a chefnogi dadansoddiad o’r gwahaniaeth y mae cymorth cynnar, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn eu cael ar blant a theuluoedd.<br>A4 . Dylai llwythi achos ac adroddiadau sicrhau ansawdd gael eu monitro’n barhaus i sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu’n effeithiol â phlant a’u teuluoedd.<br>A5 Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion a’r defnydd o gronolegau a genogramau.<br>A6 Dylid rhoi trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu pe derbynnir cysylltiadau ac atgyfeiriadau mynych ynghylch eu llesiant.<br>A7 Dylai’r cyngor adolygu ei drefniadau tîm dyletswydd argyfwng (TDA) i sicrhau bod atgyfeiriadau TDA yn cael eu cofnodi’n effeithiol ar y system electronig a bod cyfathrebiadau â’r gwasanaeth yn ystod y dydd yn cefnogi’r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth a chymryd camau’n brydlon.<br>A8 Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, ac yn canolbwyntio’n glir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd. Dylai’r canlyniadau, amserlenni a’r atebolrwydd a ddymunir ar gyfer camau gweithredu fod yn glir.<br>A9 Dylid datblygu model asesu a rheoli risgiau ar gyfer y gwasanaeth a’i rannu â staff ac asiantaethau partner hefyd. This should be accompanied by a programme of training and assurance mechanisms to ensure compliance, quality and impact.<br>R10 Dylid sefydlu disgwyliadau mewn perthynas ag amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau gan bartneriaid at asesiadau a chynlluniau gofal. An assurance mechanism should be implemented to ensure compliance and quality.<br>A11 Dylid sefydlu goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr a systemau herio ar adeg trosglwyddo achos rhwng timau i sicrhau dealltwriaeth eglur o’r anghenion a’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r achos.<br>A12 Dylai’r cyngor werthuso’n weithredol effeithiolrwydd ei waith rhynggyfarwyddiaeth wrth gefnogi Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflenwi yn erbyn disgwyliadau statudol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn arbennig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.<br>A13 Dylai’r cyngor yrru ei ymrwymiad yn ei flaen i ddatblygu cynllun comisiynu sy’n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â gwasanaethau statudol ac ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a theuluoedd. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2017<br>AGC – Arolygiad o Wasanaethau Plant | A14 Dylai'r cyngor ystyried sut y gall gynyddu lleisiau plant a theuluoedd wrth lunio cynlluniau gwasanaeth i ddarparu dealltwriaeth well o'r gwahaniaeth y mae help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn eu cael ar blant a theuluoedd.<br>A15 Dylai'r cyngor ystyried sut y gall ddarparu cyfleoedd i staff a phartneriaid fod yn rhan bellach o'r broses o ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau; dylai'r gwersi a ddysgwyd yn sgil gweithredu GCC gael eu defnyddio i lywio'r trawsnewidiad arfaethedig i Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth.<br>A16 Dylid datblygu a gweithredu'r fframwaith sicrhau ansawdd fel mater o flaenoriaeth.<br>A17 Dylai strategaeth y gweithlu barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y nifer fwyaf o staff yn aros yn eu swyddi a chamau i hyrwyddo'r gwaith o recriwtio staff profiadol yn amserol.<br>A18 Mae'n rhaid i'r staff allu cwblhau'r hyfforddiant a nodwyd i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.<br>A19 Dylai uwch-reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd goruchwyliaeth staff y rheng flaen; dylid gweithredu mecanwaith sicrwydd i sicrhau cydymffurfiad ac ansawdd.<br>A20 Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr grŵp, rheolwyr tîm/dirprwy reolwyr ac uwch-ymarferwyr barhau i gael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith o ailfodelu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gallu darparu goruchwyliaeth effeithiol a chyson ar gyfer staff ledled y gwasanaeth gan reolwyr ynghylch penderfyniadau, heriau ac arweiniad; dylid sicrhau bod mynediad at raglen arweinyddiaeth a datblygiad yn cael ei yrru yn ei flaen er mwyn i reolwyr fagu gwydnwch. | | |

